# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD IAU 25 GORFFENNAF 2024

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Linda Ann Jones a John Brynmor Hughes

**Swyddogion:** Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ffion Muscroft - Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a Mared Llwyd - Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

**Eraill a wahoddwyd:**

Non Edwards – Ymgeisydd
Siân Astley - Partner Busnes yr ymgeisydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer tafarn a bwyty Jac Y Do, Clwb y Ceidwadwyr, Caernarfon. Cafodd y cais ei gyflwyno mewn perthynas â Cherddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio y Tu Mewn, Lluniaeth Hwyr yn y Nos ar yr Eiddo a Chyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan

Iechyd yr Amgylchedd yn nodi nad oedd ystyriaethau rheoli sŵn wedi cael sylw digonol. Awgrymwyd bod angen ymgymryd ag asesiad sŵn, insiwleiddio sŵn a mesuriadau lliniaru i sicrhau nad yw sŵn o'r eiddo yn achosi niwsans statudol i drigolion tai preswyl gerllaw. O ganlyniad, roeddynt yn argymell gwrthod y cais.

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu, yn absenoldeb Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, ers cyhoeddi rhaglen yr Is-bwyllgor, bod asesiad sŵn wedi ei dderbyn a bod y swyddog bellach yn argymell cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau sŵn a golau a gyflwynwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ffaith bod Adran Gwarchod y Cyhoedd yn ymdrin â chais cynllunio i'r eiddo gael ei ddefnyddio fel tafarn, ac nad oedd ystyriaethau digonol wedi eu gwneud i reoli sŵn, nododd y Swyddog Cyfreithiol er bod sŵn yn fater perthnasol i gyfundrefn cynllunio a thrwyddedu mai'r cyd-destun trwyddedu oedd angen ei ystyried yma.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Mai'r bwriad oedd chwarae miwsig cefndirol – dim byd swnllyd. Nad oedd bwriad chwarae cerddoriaeth byw pob dydd – efallai unwaith bob pythefnos
- Bod yr eiddo wedi agor dros dro yn ystod Gŵyl Fwyd Caernarfon ac fe ddaeth i'r amlwg yr adeg hynny bod angen cais cynllunio. Nid oedd y landlord wedi gwneud un
- Bod asesiad sŵn bellach wedi ei gyflwyno

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

Yn absenoldeb Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod asesiad sŵn bellach wedi ei dderbyn a bod y swyddog yn fodlon bod yr asesiad hwnnw yn cydymffurfio â'r gofynion. Diolchodd hefyd bod cydweithio da wedi bod rhwng Adran Gwarchod y Cyhoedd a'r ymgeisydd.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y

Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau sŵn a golau a gyflwynwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.**

- **Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo yn agored neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142: 2019**
- **Er mwyn arbed i sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, heblaw i sicrhau mynediad i mewn ac allan o'r eiddo.**
- **Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (i) bydd perchennog yr eiddo yn gwneud y canlynol:**
  **- Gwneud unrhyw waith ynysu / arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio ac amod sŵn a / neu**
  **- Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn sydd wedi ei sefydlu fel uchafswm caniataëdig.**
- **Unwaith bydd lefel ar ddyfais reoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Llygredd), Cyngor Gwynedd.**
- **Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 08:00 . Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead.**
- **Bydd arwyddion clir a dealladwy yn cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sydd yn gadael yr adeilad i gysidro trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau ceir na chanu cyrn ceir.**
- **Ni chaniateir i unrhyw gerddoriaeth cael ei chwarae tu allan yr eiddo.**
- **Nid yw unrhyw oleuo mewnol nac allanol sydd i'r pwrpas o ddiogelwch staff neu ddiogelwch yr eiddo yw gosod mewn modd sydd yn achosi niwsans i unrhyw eiddo ger llaw.**

**Amodau ychwanegol i gynnwys**

- **Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn manylu ar botensial sŵn o gerddoriaeth chwyddedig yn yr eiddo o effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn ar Stryd y Farchnad, Stryd Fawr, Caernarfon, a'r fflatiau uwchben yr adeilad.**
- **Os yw'r asesiad yn dangos bod sŵn o'r eiddo yn debygol o effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn, yna bydd yn cynnwys cynllun manwl o fesurau lliniaru sŵn i ddangos na fydd niwsans yn cael ei achosi i feddianwyr eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn gan sŵn o'r eiddo trwyddedig.**
- **Bydd yr holl waith a argymhellir yn cael ei gwblhau cyn dechrau'r drwydded safle a rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 5 diwrnod cyn i'r gwaith gael ei gwblhau a'r eiddo'n cael ei ddefnyddio.**
- **Bydd peiriant cyfyngu sŵn yn cael ei osod i reoli a mesur sŵn**
- **Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** roedd Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd yn fodlon gyda'r cais pe byddai'r amodau a gynigwyd ganddynt mewn ymateb i'r cais, ynghyd a'r amodau pellach a argymhellwyd yn yr Adroddiad Asesiad Sŵn yn cael eu cynnwys ar y drwydded. Nid oedd unrhyw sylwadau eraill wedi eu cyflwyno mewn cysylltiad â'r egwyddor hwn, felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn..

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais. Ni dderbyniwyd sylwadau / gwrthwynebiadau gan y cyhoedd na gan yr Aelod Lleol. Ar nodyn cyffredinol, eglurwyd mai ar sail tystiolaeth roedd yr Is-bwyllgor yn gwneud eu penderfyniad a bod y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

**Eraill a wahoddwyd:**

- Stephanie Jeavons – Ymgeisydd
- Elizabeth Williams – Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Moto Camp Wales, Ffordd Pen y Cefn, Dolgellau, Gwynedd. Cafodd y cais ei gyflwyno mewn perthynas am drwydded eiddo i: Werthu alcohol i gwsmeriaid sydd yn aros hefo nhw ar y safle (ar yr eiddo) o 14:00 - 02:00, o ddydd Llun i Sul. Cerddoriaeth byw yn ystod gweithgareddau penwythnos (tu fewn a thu allan) rhwng 12:00 a 23:30 ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul. Cerddoriaeth wedi recordio (tu fewn a thu allan) eto o 12:00 hyd at 23:30 ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a’r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai’r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan amlygu bod Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cais i amodau ychwanegol gael eu cynnwys ar y drwydded yn ymwneud â chydweithio gyda Grŵp Cynghori a’r Ddiogelwch. Amlygwyd nad oedd gan y Gwasanaeth Tân nac Adran Gwarchod y Cyhoedd wrthwynebiad i’r cais er wedi tynnu sylw at gwynion sŵn a dderbyniwyd yn dilyn digwyddiad dros dro a gynhaliwyd ar y safle yn 2023. Er i staff y safle ddelio gyda’r cwynion yn effeithiol, ystyriwyd y byddai caniatau cerddoriaeth fyw hyd 23:30 pob dydd Gwener i ddydd Sul achosi niwsans cyhoeddus i drigolion cyfagos, ac felly, yn dilyn trafodaethau gyda’r ymgeisydd, nodwyd bod cyfaddawd i ganiatáu hyd at bedwar digwyddiad y flwyddyn galendr ar gyfer cerddoriaeth awyr agored wedi ei gytuno.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell fod y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac yn caniatau y cais cyn belled a bod yr ymgeisydd yn fodlon gyda chyfaddawd a gytunwyd gyda Gwarchod y Cyhoedd a chytuno gydag amodau’r Heddlu.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau

i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Ei bod yn hapus gyda'r cyfaddawd i leihau nifer digwyddiadau gyda cherddoriaeth awyr agored i bedwar mewn blwyddyn - hyn yn rhoi cyfle da iddynt brofi eu hunain o reoli digwyddiadau heb ymyrraeth.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Elizabeth Williams Heddlu Gogledd Cymru**

- Bod cais i'r ymgeisydd gwblhau holiadur syml yn ymwneud â rheoli diogelwch.
- Bod y cyfaddawd gyda Gwarchod y Cyhoedd yn un doeth, ond bydd pob digwyddiad yn gofyn am gymeradwyaeth Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd – bydd rhaid cyflwyno asesiad risg priodol a chynllun rheoli ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Yn absenoldeb Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd, pwysleisiodd y Rheolwr Trwyddedu yr angen i'r ymgeisydd gwblhau'r holiadur oedd yn ymwneud â rheoli diogelwch, a'i gyflwyno i'r Grŵp Cynghori a'r Ddioglewch ar gyfer trafodaeth. Ategwyd os bydd yr Heddlu a'r Cyngor yn hapus gyda'r modd mae'r safle yn cael ei reoli yn ystod digwyddiadau gyda cherddoriaeth awyr agored, ac nad oedd profiadau negyddol, yna bydd modd ystyried opsiynau megis amrywio trwydded neu gyflwyno hysbysiad digwyddiad dros dro. Nododd bod amodau'r Heddlu yn rhan o ymarferoldeb y broses.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar ddiwygio amodau cerddoriaeth awyr agored i 4 digwyddiad y flwyddyn galendr yn ystod y cyfnod y gofynnwyd amdano, sef 12:00 – 23:30**

**Amodau ychwanegol i gynnwys**

- **Creu cynlluniau rheoli diogelwch digwyddiadau manwl ar gyfer pob digwyddiad unigol a fydd yn cael eu trafod gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd, a chytunir â phob aelod o'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch (SAG) a'u gweithredu gan Drefnwyr y Digwyddiad.**
- **Bydd pob digwyddiad yn gofyn am gymeradwyaeth Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd drwy gyflwyno Asesiadau Risg priodol ar gyfer digwyddiadau a Chynllun Rheoli.**
- **Bydd mesurau i atal trosedd ac anhrefn a rheoli torf yn cael eu cytuno gyda'r heddlu ac aelodau eraill o'r SAG a'u hymgorffori yng Nghynllun Rheoli Digwyddiadau a'u gweithredu gan drefnwyr y digwyddiad.**
- **Bydd gan bob digwyddiad gynllun rheoli digwyddiadau diogelwch pwrpasol. Bydd mesurau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cael eu trafod ag aelodau'r SAG a'u hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Digwyddiadau a'u gweithredu gan Drefnwyr y Digwyddiad.**
- **Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn,** cyflwynwyd sylwadau gan yr Heddlu yn argymell amodau penodol i'w hychwanegu at y drwydded mewn cysylltiad â chynnal digwyddiadau. Roedd yr ymgeisydd yn pryderu y byddai gorfod cyflwyno cynllun ar gyfer pob digwyddiad fod yn feichus, ond eglurwyd y byddai'n rhaid llenwi holiadur ar gyfer pob digwyddiad, ond y byddai'r gofynion, o ran paratoi cynllun yn gymesur gyda natur y digwyddiad penodol. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y dylid cadw'r amodau fel ag yr oeddynt. Er pryder ynglŷn â thraffig a defnydd tir, nodwyd y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio gyda'r gofynion.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** cyflwynodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sylwadau yn mynegi pryderon y gallai cerddoriaeth awyr agored danseilio'r egwyddor yma yn enwedig gan fod cwynion sŵn wedi eu derbyn yn dilyn digwyddiad yn 2023. Er hynny, roedd y gwasanaeth yn fodlon bod y staff wedi delio gyda'r cwynion hynny cyn gynted ag yr oeddynt yn ymwybodol ohonynt. Roedd cyfaddawd wedi ei gytuno gyda'r ymgeisydd y byddai 4 digwyddiad y flwyddyn galendr ar gyfer miwsig y tu allan (byw ac wedi ei recordio) ar gyfer yr oriau y gofynnwyd amdanynt yn dderbyniol

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais. Ar nodyn cyffredinol, eglurwyd mai ar sail tystiolaeth roedd yr Is-bwyllgor yn gwneud eu penderfyniad a bod y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.20 y.b.

**CADEIRYDD**